## H Asesiad Effaith Iechyd

**Taflen Cofnodi Gwaith Sgrinio yn seiliedig ar y canllawiau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Cwblhawyd gan: Tîm Polisi Diogelwch Tomenni Glo, Llywodraeth Cymru

**Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) - Amcanion a Nodau**

Nod cyffredinol y Bil yw diogelu lles pobl trwy gyflwyno system gyson a chadarn ar gyfer asesu, cofrestru, rheoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

Prif ddiben y Bil yw atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd y Bil yn gwneud hyn trwy sefydlu cyfundrefn ar gyfer asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir.

Bydd y Bil yn sefydlu corff newydd, Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru (yr Awdurdod) ac yn rhoi swyddogaethau i'r Awdurdod. Prif amcan yr Awdurdod, fel y darperir ar ei gyfer yn y Bil, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys asesu a chategoreiddio tomenni nas defnyddir, monitro swyddogaethau a chreu a chynnal cofrestr electronig o domenni nas defnyddir.

Hefyd, mae'r Bil yn rhoi'r gallu i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gyflawni gweithrediadau ar dir, os yw'n ystyried bod angen gweithrediadau o'r fath i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu i sefydlogi tomen nas defnyddir neu ei hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau, os yw'n credu bod y cyfryw weithrediadau yn angenrheidiol i gyflawni'r amcan a nodir yn y Bil. Felly, bydd yr Awdurdod yn anelu at leihau'r risg y bydd tirlithriadau'n digwydd.

Rhaid i'r Awdurdod roi cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru mewn perthynas â thomenni nas defnyddir ac mae'n gallu rhoi gwybodaeth a chyngor i unrhyw berson mewn perthynas â thomenni nas defnyddir.

**Y Dystiolaeth a Ystyriwyd**

Mewn ymateb i'r tirlithriad yn Nhylorstown, sefydlodd Llywodraeth Cymru Dasglu Diogelwch Tomenni Glo i gyflwyno rhaglen waith i edrych ar ddiogelwch tomenni glo yng Nghymru. Mae adolygiad annibynnol Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth diogelwch tomenni glo yn ategu'r gwaith hwn. Cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith

ymgynghoriad rhwng 9 Mehefin 2021 a 10 Medi 2021. Cyflwynodd yr ymgynghoriad nifer o gynigion dros dro ar gyfer y drefn reoleiddio newydd. Defnyddiodd Comisiwn y Gyfraith ganlyniadau'r ymgynghoriad i lunio'r adroddiad “Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru".

Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd ar 24 Mawrth 2022, yn gwneud argymhellion ar gyfer fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer tomenni glo nas defnyddir gan nad yw‘r system bresennol yn addas i'r diben. Mae fframwaith arfaethedig Comisiwn y Gyfraith yn cynnwys cyflwyno:

- Un awdurdod goruchwylio
- Cofrestr tomenni
- Archwiliadau o bob tomen at ddiben asesu'r risg a dylunio cynllun ar gyfer rheoli'r domen
- Cytundebau a gorchmynion cynnal a chadw gyda pherchnogion a deiliaid ar gyfer tomenni risg is
- Ar gyfer y tomenni glo sydd wedi'u dynodi'n risg uchel, cyfundrefn ddiogelwch well gyda mwy o gyfranogiad gan yr awdurdod goruchwylio i reoli'r domen a lleihau'r siawns y bydd digwyddiadau peryglus arwyddocaol yn digwydd.

Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar 22 Mawrth 2023, a chymerwyd ei ganfyddiadau i ystyriaeth ym Mhapur Gwyn Diogelwch Tomenni Glo (Cymru). Gwnaeth y Papur Gwyn ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith ynghyd â'r dadansoddiad pellach a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar feysydd nad ydynt yn cael sylw yn adroddiad y Comisiwn neu a oedd angen ymchwil pellach. Gwahoddwyd rhanddeiliaid i gyflwyno eu barn ar y Papur Gwyn yn ystod ymgynghoriad a barodd 12 wythnos. Ystyriwyd y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrth ddatblygu'r Bil.

**Grwpiau poblogaeth yr effeithiwyd arnynt**

Fe wnaeth tîm geo-ofodol Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r berthynas rhwng gwasgariad tomenni glo ac ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Mae canfyddiadau'r tîm yn dangos bod y rhan fwyaf o'r tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru sydd â graddfa uwch (y rheini yng nghategori C a D)[1] yn yr ardaloedd difreintiedig. Mae 57% o arwynebedd tomenni glo nas defnyddir sy'n perthyn i

[1] Mae'r system gategoreiddio gyfredol yn rhestru tomenni o gategori **D** i gategori **R**. Meini prawf yn ôl categori: D Potensial i beri risg i fywyd neu eiddo; hanes hysbys o symudiad/arwyddion o ansefydlogrwydd C Potensial i beri risg i fywyd neu eiddo; dim hanes hysbys o symudiad/arwyddion o ansefydlogrwydd B Annhebygol o beri risg i fywyd / eiddo A Tomen fach neu domen wedi cael ei hadfer R Lleoliad tomen hanesyddol - sydd bellach wedi'i gymryd ymaith neu ei lefelu ac yn aml, wedi'i adeiladu arno.

gategori C a D yn y tri dosbarth (degradd) o gymuned mwyaf difreintiedig fel y'u diffinir gan y WiMD, gyda 77% o arwynebedd tomenni glo categori C a D yn y 5 degradd mwyaf difreintiedig.

**Tabl 1 Arwynebedd Tomenni Categori C a D WiMD**

| Degradd | Tomenni nas Defnyddir - Arwynebedd wedi'i Gyfrif | % o Gyfanswm yr Arwynebedd | Cyfanswm Cronnus |
|---|---|---|---|
| 1 | 2803817.084 | 12.71 | 12.71 |
| 2 | 3656978.532 | 16.57 | 29.28 |
| 3 | 6228036.588 | 28.23 | 57.51 |
| 4 | 2313439.635 | 10.48 | 67.99 |
| 5 | 2071357.7 | 9.39 | 77.38 |
| 6 | 2324904.342 | 10.54 | 87.91 |
| 7 | 750219.9208 | 3.40 | 91.31 |
| 8 | 593364.0441 | 2.69 | 94.00 |
| 9 | 930519.166 | 4.22 | 98.22 |
| 10 | 392710.6812 | 1.78 | 100.00 |
| **Cyfanswm** | **22065347.69** | **100** | |

Felly mae grwpiau poblogaeth wedi cael eu categoreiddio yn ôl lleoliad daearyddol, oedran, incwm, lefel cynhwysiant a risg iechyd meddwl.

**Effaith ar Iechyd**

Ym mis Mehefin 2022, cyfarfu Llywodraeth Cymru ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i drafod goblygiadau cynigion y Papur Gwyn ar iechyd y cyhoedd ac ystyriwyd yr ymatebion yn yr ymgynghoriad (n.17) i'r cynigion hyn wrth ddylunio gwahanol elfennau'r drefn reoli newydd.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) ar gyfer y Bil yn disgrifio manteision heb eu maintioli o ran effaith y gyfundrefn reoli newydd a'r rôl y bydd yr Awdurdod yn ei chael ar iechyd cyffredinol ac yn fwy penodol ar iechyd meddwl cymunedau sy'n byw wrth ymyl tomenni nas defnyddir.

Bydd y gyfundrefn yn atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd a thrwy leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau sy'n cael effaith negyddol ar iechyd meddwl, fel yr adroddwyd yn yr RIA, sy'n cyfeirio at astudiaeth o'r mwdlithriadau a ddigwyddodd yn Salerno, yr Eidal ym mis Mai 1998. Mae'r astudiaeth yn dangos bod goroeswyr y drychineb fwy nag 20 gwaith yn fwy tebygol o

ddioddef o anhwylder straen wedi trawma (PTSD) nag aelodau yn y grŵp rheoli a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth.[2]

Mae llawer o gymunedau, fel y dywed yr RIA, yn enwedig yng nghymoedd y De, yn byw yng nghysgod ffisegol a seicolegol tomenni nas defnyddir. Mae'n gymhleth pennu'r effaith bosibl ar iechyd meddwl cyflwyno cyfundrefn gynhwysfawr a chorff ymroddedig i reoli'r bygythiadau posibl i les pobl sy'n deillio o ansefydlogrwydd tomenni nas defnyddir neu fygythiad posibl i les pobl mewn achos o ansefydlogrwydd.

Os bydd tirlithriad, ffactor straen a nodwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru[3], yn debyg i'r ymateb i'r risg o lifogydd, yw pan fydd glanhau ac adfer ar ôl llifogydd neu dirlithriadau yn achosi diffyg mynediad at ofal iechyd, amharu ar weithgareddau'r aelwyd, colli cyfleusterau addysgol a chymdeithasol, teimladau o golli rheolaeth oherwydd ofn y bydd yn digwydd eto, pwyntiau straen economaidd fel colli eiddo ac incwm, ac ymatebion i adroddiadau yn y cyfryngau.

Bydd y Bil yn galluogi'r awdurdod i leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau ar domenni nas defnyddir yn y dyfodol ac, wrth wneud hynny, bydd yn cyfrannu at fuddion seicolegol ac iechyd meddwl i gymunedau sy'n byw'n agos at domenni nas defnyddir.

---

[2] Catapano F., Malafronte R., Lepre F., Cozzolino P., Arnone R., Lorenzo E., Tartaglia G., Starace F., Magliano L., Maj M. "*Psychological consequences of the 1998 landslide in Sarno, Italy: A community study*", Acta Psychiatrica Scandinavica 2001; 104(6): 438-442, 438-442, cyfeirir ato yn Kennedy IT, Petley DN, Williams R, Murray V. "A systematic review of the health impacts of mass Earth movements (landslides)" PLoS Curr. 2015 Ebrill 2015, ar gael ar-lein drwy https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC4423842/, cyrchwyd ddiwethaf 06/06/2022

[3] Iechyd Cyhoeddus Cymru, "*Llifogydd ac iechyd meddwl: gwybodaeth hanfodol ar gyfer ymatebwyr rheng-flaen* icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/iechyd-cyhoeddus-amgylcheddol/y-tywydd-ac-iechyd/llifogydd/llifogydd-iechyd-meddwl-gweithwyr-rheng-flaen/, cyrchwyd 07/06/2022

| **Taflen Gofnodi 1** | **Ffyrdd o fyw** | | **Gwasgariad Grwpiau Agored i Niwed** | **Sail** |
|---|---|---|---|---|
| | **(Cadarnhaol) +** | **(Negyddol) -** | | |
| Rhwydweithiau cymorth cymdeithasol | + | | **Grwpiau oedran**<br>• Pob oed | **Cadarnhaol**<br><br>Bydd pob grwp oed yn elwa ar y Bil gan mai ei brif ddiben yw atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o fethiannau yn y dyfodol ar domenni segur, hynny yn sgil gwella cyflwr tomenni a'u monitro mewn modd rhagweithiol. Felly mae'n annhebygol y bydd y rhai sy'n byw yn agos at domenni nas defnyddir yn wynebu'r posibilrwydd o orfod symud o'u cymuned am i dirlithriad ddifrodi tai a seilwaith. Byddai systemau cymorth cymdeithasol yn cael eu cynnal. |

| **Taflen Gofnodi 2** | **Ffyrdd o fyw** | | **Gwasgariad Grwpiau Agored i Niwed** | **Sail** |
|---|---|---|---|---|
| | **(Cadarnhaol) +** | **(Negyddol) -** | | |
| **Cyflogaeth ac amodau gwaith** | + | | **Grwpiau incwm**<br><br>• Pobl ar incwm isel<br>• Economaidd anweithgar<br>• Di-waith/heb gyflog<br>• Pobl nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd salwch | **Cadarnhaol**<br><br>Bydd y Bil yn diogelu cymunedau rhag tirlithriadau posibl ar domenni, gan leihau'r pryderon nad yw tomenni'n cael eu monitro a'u rheoli'n briodol. |
| **Yr amgylchedd ffisegol**<br><br>**(Darparu gwasanaethau)** | + | | **Grwpiau daearyddol**<br><br>Pobl sy'n byw yn agos at domenni nas defnyddir, yn enwedig tomenni risg uchel | **Cadarnhaol**<br><br>Bydd y Bil yn diogelu gwasanaethau hanfodol, er enghraifft cyflenwadau dŵr a nwy; gan ei fod yn lleihau'r tebygolrwydd y gallai tirlithriad eu torri.<br><br>**Cadarnhaol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Ym mis Tachwedd 2023, byddai digwyddiadau ymgysylltu adeg rhyddhau data ar domenni nas defnyddir wedi bod o fudd i iechyd meddwl pobl trwy eu gwneud yn ymwybodol bod cyfundrefn newydd ragweithiol, ataliol ar waith i asesu, monitro ac archwilio'r holl domenni nas defnyddir i atal unrhyw ddigwyddiadau, mân neu fawr. |

| **Taflen Gofnodi 3** | **Ffyrdd o fyw** | | **Gwasgariad Grwpiau Agored i Niwed** | **Sail** |
|---|---|---|---|---|
| | **(Cadarnhaol) +** | **(Negyddol) -** | | |
| **Yr amgylchedd ffisegol** | + | | **Grwpiau daearyddol** | **Cadarnhaol**<br><br>Bydd perchnogion tai yn agos at domenni nas defnyddir yn elwa ar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **(Tai)** | | | Pobl sy'n byw yn agos at domenni nas defnyddir, yn enwedig tomenni risg uchel | gyfundrefn newydd sydd â'r prif nod o ddiogelu lles pobl, am y bydd yn lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau yn y dyfodol. |

| **Taflen Gofnodi 4** | **Ffyrdd o fyw** | **Gwasgariad Grwpiau Agored i Niwed** | **Sail** |
|---|---|---|---|
| | | | |

| | (Cadarnhaol) + | (Negyddol) - | | |
|---|---|---|---|---|
| **Iechyd meddwl** | + | | **Grwpiau iechyd**<br><br>Pobl â chyflyrau iechyd meddwl sy'n bodoli eisoes | **Cadarnhaol**<br><br>Gall pobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd meddwl sy'n bodoli eisoes deimlo'n dawelach eu meddwl am y bydd y gyfundrefn newydd yn lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau yn y dyfodol. |
| **Cynhwysiant** | + | | **Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall**<br><br>• Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig<br>• Gweithwyr mudol | **Cadarnhaol**<br><br>Bydd pobl sy'n byw'n agos at domenni nas defnyddir yn elwa ar gyfundrefn newydd sydd â'r prif nod o ddiogelu lles pobl, am y bydd yn lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau yn y dyfodol. Mae'r Bil yn berthnasol i bawb yn gyfartal. |

**A yw'r effeithiau a nodwyd uchod yn ddigon i gyfiawnhau asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar iechyd?**

Nid ydym yn credu bod angen asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar iechyd ar hyn o bryd, gan nad oes unrhyw risgiau sydd ar ddod wedi'u nodi. Yr ateb i'r cwestiwn felly yw na.

Mae natur ataliol y gyfundrefn newydd yn gofyn am asesiad o'r holl domenni nas defnyddir, ac mae'n darparu ar gyfer monitro'r tomenni â sgôr uwch, gan drwy hynny leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau. Nod y dull rhagweithiol hwn o weithio yw sicrhau bod cymunedau'n cael eu cadw'n ddiogel, a bod risgiau'n cael eu rheoli.

**A oes angen cymryd unrhyw gamau ychwanegol o ganlyniad i'r broses HIA hon?**

Nac oes. Byddwn yn parhau i adolygu'r HIA a byddwn yn ystyried yr effeithiau ar iechyd wrth roi'r gyfundrefn ar waith.

Pan fydd hynny'n briodol, cynhelir asesiadau o'r effaith ar iechyd i'w hatodi wrth is-ddeddfwriaeth a chanllawiau.

***Os oes angen HIA arall, disgrifiwch y camau nesaf (e.e. dyddiad ac amser y cyfarfod cwmpasu)***

Daethom i'r casgliad nad oes angen HIA arall.

***A oes neu a fydd asesiadau effaith eraill yn cael eu cynnal? h.y., Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Neu a fydd hwn yn ffurfio rhan o un? Os felly, esboniwch.***

Oes, mae asesiadau cymdeithasol economaidd, Cydraddoldeb, Bioamrywiaeth a Phrawfesur Gwledig yn rhai o'r asesiadau effaith eraill sydd wedi’u cynnal.

Bydd y Memorandwm Esboniadol yn rhoi trosolwg o asesiadau penodol a gynhaliwyd i ddeall effaith y Bil ar feysydd penodol.